Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Adroddiad (SLC (3) 26-09)

Dyddiad: 11 Tachwedd 2009
Amser: 9.30
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 11 Tachwedd 2009. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Alun Davies AC, William Graham AC a Mike German AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AC. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

1. Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC344 - Gorchymyn Cynlluniau Cyfunol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Amrywio) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 24 Hydref 2009. Fe'i gosodwyd ar 27 Hydref 2009. Yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2009

SLC345 - Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) (Diwygiad Rhif 2) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Hydref 2009. Fe'u gosodwyd ar 28 Hydref 2009. Yn dod i rym ar 24 Tachwedd 2009

SLC347 - Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Sylweddau Annymunol Penodedig) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 27 Hydref 2009. Fe'u gosodwyd ar 29 Hydref 2009. Yn dod i rym ar 23 Tachwedd 2009

SLC349 - Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) (Diwygio) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 2 Tachwedd 2009. Fe'i gosodwyd ar 3 Tachwedd 2009. Yn dod i rym ar 25 Tachwedd 2009

2. Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 ac 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC343 - Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 20 Hydref 2009. Fe'i gosodwyd ar 22 Hydref 2009. Yn dod i rym ar 16 Tachwedd 2009.

Yn ogystal â'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad drafft o dan Reol Sefydlog 15.2, trafododd y Pwyllgor y ddarpariaeth benodol yn rheoliad 4.1(c) ynghylch penodi aelodau. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n tynnu sylw'r Cynulliad at hyn o dan Reol Sefydlog 15.3. Nodir hyn yn Atodiad 1. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'r Pwyllgor Menter a Dysgu, yn ogystal ag at y Gweinidog, er mwyn tynnu eu sylw at yr adroddiad a gofyn iddynt roi rhagor o ystyriaeth i'r mater.

SLC346 – Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) (Diwygio) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 27 Hydref 2009. Fe'u gosodwyd ar 28 Hydref 2009. Yn dod i rym ar 18 Tachwedd 2009

Nododd y Pwyllgor bod y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn datgan: "…the Department for the Environment, Food and Rural Affairs have already made amending regulations which have been in force in England since 6 April 2009. Welsh businesses could be placed at a disadvantage if the proposed amendments to the current regulations are not implemented. The Environment Agency has taken a temporary regulatory position, which is in place until December 2009 where they will treat industry in both Wales and England the same in relation to these amendments…" (yn Saesneg yn unig). Cytunodd yr Aelodau y byddai'r Cadeirydd yn gofyn i'r Gweinidog perthnasol pam fod angen cyfnod o chwe mis lle byddai'r Rheoliadau a ddrafftiwyd ar gyfer Lloegr yn cael eu defnyddio fel y ddeddfwriaeth ddiofyn ar gyfer Cymru.

Mae Adroddiadau'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog15.2 ac 15.3 ar y Rheoliadau hyn i'w gweld yn Atodiadau 1-2.

3. Y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)

Fel rhan o'r gwaith craffu ar y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru) o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) (caiff y Pwyllgor ystyried "pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig … sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru" a chyflwyno adroddiadau ar hynny), clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig.

Eitem 4.2 ar yr agenda – Ystyried y dystiolaeth a'r argymhellion cychwynnol ar gyfer adroddiad y Pwyllgor: Y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod y dystiolaeth ar y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru).

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

11 Tachwedd 2009

Atodiad 1

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-26-09)

SLC343

Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl: Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru. Corff cynghori annibynnol i Weinidogion Cymru ar faterion trafnidiaeth gyhoeddus yw'r Pwyllgor.

Nodwyd y pwynt a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae erthygl 7 (1) (d) ac erthygl 8 (1) yn y testun Saesneg yn cyfeirio at "procedure" ("gweithdrefn") yn yr unigol, tra bod y darpariaethau cyfatebol yn y testun Cymraeg yn cyfeirio at "weithdrefnau" ("procedures") yn y lluosog. Mae anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)].

Nodwyd y pwynt a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3(ii).

At hynny, mae'r pwynt a ganlyn wedi'i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3(ii) fel mater y dylai'r Cynulliad roi sylw arbennig iddo gan ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Yn rheoliad 4.1(c), nodwyd mai aelod ychwanegol o'r Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru fyddai person a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol [dros Drafnidiaeth] i gynrychioli buddiannau Cymru ar y "Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl". Efallai y bydd y Cynulliad am ystyried a fyddai'n fwy penodol i Weinidogion Cymru wneud y penodiad hwn yn hytrach na'r Ysgrifennydd Gwladol, ac a ddylid diwygio Deddf Trafnidiaeth 1985 i adlewyrchu hyn.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

11 Tachwedd 2009

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009

Rydym yn derbyn y pwynt a wnaed. Mae Gorchymyn diwygio wedi ei ddrafftio a bydd yn dod I rym ar 25ain Tachwedd 2009 er mwyn cywiro'r gwall.

Atodiad 2

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-26-09)

SLC346

Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl: Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) (Diwygio) 2009

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"), sy'n rhoi ar waith Gyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC ar wastraff peryglus. Caiff yr amrywiol ddiwygiadau eu hegluro yn y Nodyn Esboniadol.

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae Rheoliad 6 yn mewnosod rheoliad 14 newydd yn lle'r fersiwn yn Rheoliadau 2005. Mae'r paragraff Saesneg (3)(b) yn cyfeirio at wastraff yn cael ei dderbyn ar gyfer ei gasglu, ei waredu neu ei adfer ar safle ("at a site"). Mae'r paragraff cyfatebol yn Gymraeg yn cyfeirio at wastraff yn cael ei dderbyn ar gyfer ei gasglu, ei waredu neu ei adfer "o safle" (from a site). Mae'r geiriad Saesneg yn awgrymu bod "at a site" yn ymwneud â'r derbyn, tra bod y geiriad Cymraeg yn awgrymu bod "o safle" yn cyfeirio at y casglu, y gwaredu neu'r adfer. Dylid datrys yr amwysedd cyn gynted â phosibl. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

11 Tachwedd 2009

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) (Diwygio) 2009

Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod yr amwysedd a nodwyd yn bresennol yn fersiwn Gymraeg Rheoliadau 2009.

Byddwn yn mynd i'r afael â'r amwysedd hwn mewn rheoliadau i ddod a fydd yn diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005. Bydd y diwygiadau hynny'n ymwneud â'r system Nodyn Cludo a ddefnyddir yn gyfredol ar gyfer casglu a symud Gwastraff Peryglus. Mae Llywodraeth

Cynulliad Cymru, DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio ar y cynigion hynny ar hyn o bryd ac, fel rhan o'r diwygiadau hyn, bwriedir mynd i'r afael â'r amwysedd yn Rheoliadau Diwygio 2009 a nodir gan y Pwyllgor.